

Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Anfonwn ein cofion heddiw at John H. Williams (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Elwyn Williams (Henllan) yn yr Inffirmari. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ac i bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy i ofal tyner ein Duw gan hyderu y cânt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt.

Llongyfarchiadau i Robin a Margaret Davies (Groes) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

Cywaith Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd

Gwahoddir y plant a/neu'r oedolion i wneud cyfraniad tuag at gywaith yr Ysgol Sul eto eleni. Y testun a osodwyd yw "**Edrych ar ôl Byd Duw**" a chewch ei ddehongli mewn unrhyw ddull neu fodd trwy feithrin sgiliau cynllunio creadigol, ymchwil a datblygu syniadau hefo eraill yn yr Ysgol Sul.

Derbynnir y cyfraniadau yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog nos Lun, Ebrill 6^{ed} rhwng 7.00 ac 8.00 o'r gloch. Gofynnir i chi roi enw pob un yn eglur ar y gwaith.

Os ydych am baratoi arddangosfa flodau, gofynnir i chi fynd â'r trefniant i Gapel y Dyffryn erbyn 5.30 nos Wener, Mai 15^{fed}. Cysylltwch ymlaen llaw ag Anwen (01745 832303/anwenjones303@mail.com) er mwyn ei galluogi i gynnwys yr enwau yn yr adroddiad, os gwelwch yn dda.

Bydd y Cyfarfod Gwobrwo yn cael ei gynnal nos Wener, Mai 15^{fed} yng Nghapel y Dyffryn am 6.00. Bydd sgwrs i'r plant a lluniaeth ysgafn i bawb fydd yn bresennol ac adloniant i'r plant i ddilyn.

I ddod

PENWYTHNOS IEUENCTID (Bl. 7-11) Chwefror 21^{ain} – 23^{ain} yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn rhoi **£20 o ostyngiad i bob unigolyn** fydd yn mynd ar y cwrs. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan â phosibl.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (12^{fed}), os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Chwefror 2^{il} a'r 9^{fed}, 2020

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

"Pwy ydy hwn?" medden nhw, "Mae hyd yn oed y gwynt a'r tonnau yn ufuddhau iddo!" (Marc 4:41) Gyda'r geiriau yna yr ymatebodd y disgyblion i'r Arglwydd Iesu wedi iddo dawelu'r storm ar Fôr Galilea. Ac wrth i ni ddod i addoli gyda'n gilydd heddiw, gofynnwn am gymorth yr Ysbryd Glân i'n helpu ninnau i ryfeddu at allu, mawredd a chariad Duw ar ein cyfer yn Iesu Grist.

Pwy sy'n gyfrifol? Dyna i chi gwestiwn sy'n achosi dadlau chwerw mewn sawl maes ar hyn o bryd. O sut mae'r gwasanaeth iechyd yn gweithio yng ngogledd Cymru i broblemau gyda threnau ar draws y wlad, mae'r cyhuddiadau a'r pwyntio bys yn ddiffastod llwyr. Y cwmnïau trenau sy'n gyfrifol am y problemau yn ôl y llywodraeth, ond nid yw'r llywodraeth yn barod i dderbyn cyfrifoldeb am ddiffygion yn y gwasanaeth iechyd ychwaith, er bod Bwrdd Betsi Cadwaladr dan fesurau arbennig ers pum mlynedd.

Dylem fod yn raslon wrth dybio mor anodd yw gwybod pwy yn union sy'n gyfrifol am beth o fewn sefydliadau enfawr, ac nad oes unrhyw lywodraeth yn gwneud popeth yn iawn. Serch hynny, o ystyried y mater yn fwy personol gwelwn ar dudalennau cyntaf y Beibl y gwirionedd anghyfforddus bod gwrthod derbyn cyfrifoldeb yn dod yn reddfod i ni fel pobl, yn enwedig pan ydym yn euog! Gofiwch chi sut ymatebodd Adda ac Efa i gwestiynau'r Arglwydd wedi iddynt fwyta'r ffrwyth yng ngardd Eden? Pwyntio bys at rywun arall wnaeth y ddau ohonynt wrth geisio cuddio oddi wrth eu Creawdwr! (Genesis 3:8-13) Tybed faint o hynny ydym ni'n tueddu i'w wneud o ddydd i ddydd? Ydym ni'n osgoi cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd, ein geiriau a'n blaenoriaethau mewn bywyd pan maent yn aml yn achosi loes i eraill, problemau i ni'n hunain a difrod i'r greadigaeth?

Mae Cristnogion yn cael eu rhybuddio gan Ioan yn ei lythyr cyntaf na ddylent fyw fel hyn, a bod opsiwn amgenach: "Os dywedwn ein bod yn ddibechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, ac nid yw'r gwirionedd ynom. Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder." (1 Ioan 1:8-9)

Mor fendigedig yw cael ein hatgoffa bod maddeuant pechodau yn ganolog i waith gorffenedig Iesu Grist pan ddaeth i'r ddaear i achub. Ond er mwyn derbyn maddeuant rhaid i ni droi at Iesu mewn ffydd, gan edifarhau, syrthio ar ein bai a gofyn am Ei gymorth. Pam ydym ni'n oedi? Derbyniodd Iesu gyfrifoldeb am bechod er mwyn i'w bobl gael byw mewn rhyddid: "Ef ei hun a ddygodd ein pechodau yn ei gorff ar y croesbren, er mwyn i ni ddarfod â'n pechodau a byw i gyfiawnder." (1 Pedr 2:24)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 2^{il} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 5^{ed} ➤ **Noson o addoliad** yng Ngholeg y Bala am 7.30 yng nghwmni Owain Edwards a'r gantores werin, Sian James. Croeso i bawb.
- Iau – 6^{ed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – Sul
7^{fed} – 9^{fed} ➤ **Chwalfa Chwefror** (8–12 oed) yng Ngholeg y Bala. Penwythnos llawn gemau gwirion, hwyl, gweithgareddau, crefft, canu, ymlacio yn y stafell chwaraeon, nofio, gwyllo ffilm ac i ddysgu mwy am Iesu. Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn rhoi **£20 o ostyngiad i bob unigolyn** fydd yn mynd ar y cwrs. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.
- Sadwrn – 8^{fed} ➤ **"Maeth"** – cefnogaeth Gristnogol i amaethwyr yng Nghanolfan Brynygroes, Y Bala. Cinio am 1:00 a chyfarfod am 2.00 yng nghwmni'r siaradwr Roger Thomas.
- **Baby Basics Dyffryn Clwyd** – Cynhelir lansiad y gangen yn Nyffryn Clwyd yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych am 11.00. Mae croeso i ni fynd draw i ddysgu mwy am eu gwaith ac i gwrdd â'r tîm dros banded a chacen.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Gwion Dafydd yn pregethu.
- Mercher – 12^{fed} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 13^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 14^{eg} ➤ **C.I.C.** ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 2^{il} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa i'r Daith (Peniel, Saron a Nantglyn) ym Mheniel am 10.00 gyda'r Parch. Trefor Lewis yn pregethu.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd Gwion Dafydd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 2^{il} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 9.30 ac yn Groes am 9.45. Bydd Mr Gerallt Jones yn arwain oedfa i'r daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) yn Groes am 10.30.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 2^{il} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Meiriadog am 9.30, ac wedi hynny, bwriedir mynd i'r Hen Ddeondy i gynnal gwasanaeth.
- Mercher – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (2^{il})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.
- Mercher – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (9^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa i'r daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn Llansannan am 10.30.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.